Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.


This document is available in Welsh as well as English.

Ionawr – Mawrth 2025-2026

**Diweddariad chwarterol ymweliadau annibynnol â dalfeydd:**

## Mis Ionawr — mis Mawrth 2026 — Data o'r Ddalfa


| Cyfanswm yr oedolion a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm y gwrywod | Cyfanswm y benywod | Cyfanswm yr unigolion rhyngryw | Cyfanswm yn anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1726 | 80 | 1806 | 1461 | 338 | 0 | 7 |



Ionawr – Mawrth 2025-2026

## Ionawr - Mawrth 2026 - Data o ymweliadau annibynnol â dalfeydd

| Nifer yr ymweliadau annibynnol â dalfeydd | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa ar adeg ymweliadau annibynnol â'r ddalfa | Cyfanswm yr oedolion a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa ddim ar gael | Nifer yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa yr arsylwyd arnynt | Cyfanswm yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa yr ymwelwyd â nhw | Cyfanswm y gwrywod a gadwyd yn y ddalfa | Cyfanswm y benywod a gadwyd yn y ddalfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 52 | 156 | 150 | 6 | 35 | 46 | 75 | 135 | 21 |





**Ymwelwyr annibynnol â dalfeydd gweithredol: 14**


- Sir Benfro: 3
- Powys: 4
- Ceredigion: 3
- Sir Gaerfyrddin: 4


*Mae un gwirfoddolwr wedi ymadael a phump gwirfoddolwr wedi cymryd seibiant dros dro o'r cynllun.*

Ionawr – Mawrth 2025-2026

**Amseroedd ymweliadau:**




Rhestrir isod ddadansoddiad o'r categori penodedig 'Arall':

1. Eiliadau cyraeddadwy
2. Eitemau crefyddol
3. Gwaharddiad cyfathrebu
4. Thermomedr bwyd
5. Cyflenwadau bwyd
6. Ceblau yn y golwg yn yr ystafell brosesu
7. Sgriniau yn y ddalfa
8. Tystysgrif Halal
9. Sut mae staff y ddalfa yn cyflwyno'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa
10. Cau gorsafoedd
11. Y cynnig i gyflwyno tystysgrif Kosher
12. Rhwymynnau
13. Teledu cylch cyfyng

Ionawr – Mawrth 2025-2026

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun:**

| |
|---|
| Oedi i fynd i mewn i'r ddalfa<br><br>Mewn dalfa benodol, nodwyd problemau staffio yn y ddalfa yn ogystal â'r ddesg flaen sy'n gofalu am y dderbynfa, sydd wedi golygu bod oedi wedi bod o ran rhoi mynediad ar unwaith i'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa. Nodwyd nad oes staff i ofalu am y ddesg flaen, sy'n golygu bod staff y ddalfa yn gorfod gadael y ddesg i ateb y drws pan na fydd staff y dderbynfa ar ddyletswydd.<br><br>Yn ystod y chwarter, cafwyd achosion lle bu'n rhaid i'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa aros am beth amser cyn cael eu hebrwng o amgylch y ddalfa neu cawsant eu cynghori i gynnal eu hymweliadau drwy'r agoriad yn y drws.<br><br>Hysbysodd yr heddlu Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) eu bod yn rhagweld y bydd niferoedd staff y ddalfa yn gwella ym mis Ebrill; ond, mae heriau'n parhau oherwydd gwyliau blynyddol, cyrsiau hyfforddi, a salwch - rhesymau sy'n achosi tynnu swyddogion o'u dyletswyddau yn y ddalfa.<br><br>Mae SCHTh yn nodi ac yn gwerthfawrogi yr ymdrechion a wnaed gan staff y ddalfa i gyfleu'r pwysau hwn yn ystod y chwarter heriol hwn ac i ddarparu ar gyfer ymweliadau'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa lle bynnag y bo modd. |
| Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol<br><br>Dywedodd staff y ddalfa yn Aberhonddu wrth yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa am yr heriau y maent yn eu hwynebu o ganlyniad i fod heb weithwyr gofal iechyd proffesiynol sefydlog.<br><br>Cafwyd achosion lle bu rhaid cau dalfeydd lleol o ganlyniad i lefelau staffio, a oedd yn golygu bod angen dod ag unigolion yn y ddalfa i Aberhonddu; ond er hynny, ni sicrhawyd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sefydlog. |
| Sylwadau cadarnhaol |

Cyfeiriodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd at dri sylw cadarnhaol nodedig yn y chwarter diwethaf:

1. Roedd aelod o staff y ddalfa wedi cymryd amser i roi gwybod i'r ymwelwyr â'r ddalfa ynghylch sut yr oedd wedi llwyddo i dawelu unigolyn yn y ddalfa a oedd wedi bod yn ofidus iawn ac wedi'i gythruddo drwyddo, ac o ganlyniad, pan ymwelodd yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa ag ef ymhen hir a hwyr, roedd yn ymddangos yn dawel ac yn gorffwys.
2. Hysbysodd dau unigolyn penodol yn y ddalfa yr ymwelwyr annibynnol pa mor dda yr oeddent wedi cael eu trin gan staff y ddalfa a'u bod yn ymatebol iawn bob amser pan fyddai'r seiniwr cell yn cael ei ddefnyddio.
3. Roedd unigolyn yn y ddalfa a oedd yn bresennol ar adeg ymweliad yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa wedi bod yn arddangos arwyddion o broblemau iechyd meddwl sylweddol. Yn ystod ymweliad yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, gwelsant weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn asesu'r unigolyn ac yn cynghori ei fod yn anaddas i gael ei gyfweld, a theimlwyd na fyddai'n bosibl ei ddeall pe bai'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn ceisio siarad ag ef. Roedd yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa yn dystion i ofal a sylw canmoladwy ac roeddent yn canmol sut roedd y staff wedi sicrhau amgylchedd tawel a threfnus gydol yr ymweliad.

Yn ogystal â'r adroddiadau hyn, nododd y SCHTh y cyfanswm canlynol o sylwadau cadarnhaol yn dilyn ymweliadau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd:

- Cymwynasgarwch cyffredinol staff y ddalfa – 11 achlysur
- Unigolion yn y ddalfa yn cyfeirio at ba mor dda y cawsant eu trin gan staff - 6 achlysur.
- Ystafelloedd glan a threfnus - 3 achlysur.
- Staff yn gwrtais, yn gyfeillgar neu'n groesawgar - 16 achlysur.

## Unigolion yn y ddalfa sydd wedi'u gwahardd rhag cyfathrebu

Yn ystod un ymweliad gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ystod y chwarter, cawsant eu gwrthod rhag gweld unigolyn yn y ddalfa am ei fod wedi'i wahardd rhag cyfathrebu (Incommunicado). Ystyr Incommunicado yw:

Yn ôl cyfraith y DU, **ni ellir gwahardd unigolyn yn y ddalfa rhag cyfathrebu** fel arfer — mae ganddo'r hawl i hysbysu rhywun ei fod wedi cael ei arestio ac i gyfathrebu ag eraill. Mae hyn wedi'i nodi o dan **Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984**, **adran 56**, a **Chod C y ddeddf**.

Fodd bynnag, gall **swyddog o reng arolygydd neu uwch** ohirio'r hawl hwn mewn amgylchiadau penodol. Dyma'r agosaf y daw arferion dalfeydd y DU at "awdurdodi cyfnod yn y ddalfa â gwaharddiad rhag cyfathrebu."

Rhaid i'r arolygydd (neu reng uwch) gredu y byddai caniatáu iddo gyfathrebu yn:

- Ymyrryd â thystiolaeth.
- Arwain at niwed i eraill.
- Rhybuddio unigolion eraill o dan amheuaeth
- Rhwystro adfeddiant eiddo.
- Ymyrryd â'r ymchwiliad.

Yn yr achos hwn, dilynodd rhingyll y ddalfa a'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa y prosesau'n gywir, drwy geisio eglurhad gan yr arolygydd a benderfynodd, oherwydd difrifoldeb yr ymchwiliad, na ddylai gael ei weld. Roedd hyn yn ddysgu rhagorol ar ran yr heddlu a'r ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa dan sylw.

Ymweliadau a gafodd eu canslo

Cafodd dau ymweliad eu canslo yn ystod y chwarter hwn, ar fyr rybudd oherwydd salwch staff ac oherwydd i ddalfa gael ei chau er mwyn gwneud atgyweiriadau angenrheidiol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r heddlu mewn perthynas â chynlluniau arfaethedig i gau dalfeydd, a lle bynnag y bo modd, cau dalfeydd ar fyr rybudd.

<u>Atgyweiriadau</u>

Ionawr – Mawrth 2025-2026

Mae nifer o atgyweiriadau parhaus wedi bod yn mynd rhagddynt yn ystod y chwarter diwethaf, gan gynnwys y canlynol:

- Ceblau yn y golwg yn yr ystafell brosesu. Mae'r Pennaeth Dalfeydd wedi ymweld â'r ystafell ers hynny ac wedi cytuno â phenderfyniad yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa ynghylch yr arsylwad hwn, ac mae'r Adran Ystadau yn y broses o symud y ddesg ar hyn o bryd.
- Mewn dalfa benodol, maent yn parhau i ddisgwyl am fainc newydd ar gyfer unigolion yn yr ystafell aros. Mae'r SCHTh yn cydweithio â'r heddlu i sicrhau ei bod yn cael ei gosod.
- Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn pryderu ynghylch yr oedi o ran atgyweirio dwy gell a lleoliad y sgriniau monitro ar ddesg y ddalfa ar gyfer un dalfa. Maent o'r farn nad yw preifatrwydd yr unigolion sy'n cael eu cofrestru i'r ddalfa yn cael ei barchu oherwydd lleoliad y sgriniau hyn.
- Mae'n ymddangos bod problem barhaus â'r system wresogi mewn cell benodol mewn un ddalfa oherwydd nad yw'n gweithio drwy'r amser. Wedi gwneud ymholiadau, mae'n ymddangos eu bod yn disgwyl am ddarn angenrheidiol er mwyn datrys y broblem, ac mai dyna sy'n achosi'r oedi. Mae hyn yn cael ei fonitro'n agos.
- Nid yw'r system deledu cylch cyfyng yn weithredol mewn un ystafell ac mae wedi bod yn broblem barhaus ers ychydig wythnosau. Nid yw'r darparwr teledu cylch cyfyng blaenorol yn gallu rhoi'r cyfrinair i'r darparwr presennol er mwyn cysylltu sgriniau'r cyfrifiaduron. Mae'r broblem wedi'i huwchgyfeirio'n briodol a disgwylir iddi gael ei chywiro yn y dyfodol agos.

<u>Materion eraill a nodwyd</u>

Tystysgrif Halal – Sylwyd bod nifer o dystysgrifau wedi dyddio mewn nifer o ddalfeydd. Mae'r heddlu wedi cywiro'r mater hwn ers hynny.

Tystysgrif Kosher – Gan fod ganddynt ardystiad Halal, gofynnodd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a oedd yn berthnasol i Kosher hefyd. Ers hynny, mae'r heddlu wedi cadarnhau nad oes unrhyw ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â gofynion bwyd Kosher sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo fod ar waith yn y ddalfa.

Ionawr – Mawrth 2025-2026

**Eiliadau cyraeddadwy** - Cafwyd achosion lle nad oedd y Gweithiwr Ieuenctid ar gael yn ystod cyfnodau cynnar y prosiect hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn, ac mae mesurau i gryfhau gwydnwch staffio ar y gweill ar hyn o bryd.

**Eitemau crefyddol** – Cafwyd adroddiadau bod rhai deunyddiau crefyddol yn cael eu pentyrru'n amhriodol neu bod rhai eitemau crefyddol ar goll.

**Thermomedr bwyd** – Ymddengys nad oedd y thermomedr bwyd wedi cael ei ddefnyddio na'i gofnodi am gyfnod o dri diwrnod mewn un ddalfa benodol.

**Cyflenwadau bwyd** – Nid yw cyflenwadau di-glwten yn cael eu defnyddio cyn eu dyddiad defnyddio olaf. Mae dyddiadau dod i ben y cyflenwadau hyn yn fyrrach na'r cyflenwadau bwyd eraill, ac mae ymholiadau wedi'u gwneud i sefydlu a ellir eu dychwelyd i'r tîm cyllid, sydd wedi cadarnhau na fydd y cyflenwr yn derbyn y cyflenwadau sydd â mwy na 28 diwrnod ar ôl.

**Rhwymynnau** – Nid oedd cyflenwad o rwymynnau mewn un ddalfa benodol.

**Ffôn symudol** – Mae staff mewn un ddalfa wedi tynnu sylw'r ymwelwyr annibynnol at yr angen am ffôn symudol pan nad ydynt wrth eu desg os oes argyfwng a bod angen ffonio am ambiwlans. Bydd y SCHTh yn monitro'r cais hwn gan fod gan staff y ddalfa radio i'w ddefnyddio mewn argyfyngau meddygol.

Ionawr – Mawrth 2025-2026

**E-ddysgu digidol**

Ym mis Tachwedd 2025, cefnogodd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd reolwyr y cynlluniau ymwelwyr drwy ddarparu sesiynau e-ddysgu a chwe modiwl wedi’u cynllunio i gefnogi dysgu yr ymwelwyr.

Ym mis Chwefror 2026, ychwanegwyd dau fodiwl newydd:

1. Unigolion a gedwir yn y ddalfa o dan bwerau mewnfudo a hygyrchedd o ran anabledd ar gyfer unigolion yn y ddalfa. Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â gwybodaeth hanfodol am unigolion a gedwir yn y ddalfa o dan bwerau mewnfudo, gan gynnwys eu hunaniaeth a’u hawliau a’u hawlogaethau, a all fod yn wahanol i rai unigolion yn y ddalfa sy’n dod o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Yn ogystal â hyn, bydd yr hyfforddiant yn mynd i'r afael â'r heriau penodol y mae'r grŵp hwn o unigolion a gedwir yn y ddalfa yn eu hwynebu ac yn amlinellu cyfrifoldebau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd o ran monitro.
2. Anableddau corfforol yn y ddalfa - sy'n archwilio anghenion pobl ag anableddau corfforol, yn edrych ar y fframwaith cyfreithiol sydd ar waith er mwyn amddiffyn unigolion ag anableddau corfforol a'r hyn y gallwch chi fel ymwelwyr annibynnol ei fonitro. Crëwyd y modiwl wedi ymgynghori â phobl sydd wedi byw ag anableddau corfforol.

Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi adrodd bod y modiwlau dysgu newydd yn gefnogol ac yn ddiddorol. Bydd y SCHTh yn sicrhau bod pob aelod yn cwblhau'r modiwlau hyn er mwyn cynnal lefelau sgiliau cyson a’u cefnogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

**Hyfforddiant ymwelwyr annibynnol â dalfeydd**

Ym mis Chwefror 2026, cynhaliodd Adferiad ddigwyddiad hyfforddi a oedd yn rhoi’r cyfle i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd roi eu mewnbwn mewn perthynas ag Oedolion Priodol, a all gefnogi oedolion agored i niwed yn y ddalfa.

Yn ogystal â hyn, ar 23 Mawrth 2026, cafodd ymwelwyr annibynnol eu gwahodd i gymryd rhan mewn hyfforddiant cyfweliadau, fel y gallant gynorthwyo rheolwyr cynllun y SCHTh i asesu ymgeiswyr newydd sy'n awyddus i ymuno â’r tîm ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.

| |
|---|
| **Iechyd meddwl a phrofiad bywyd - Digwyddiad ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ar-lein**<br><br>Mynychodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ddigwyddiad y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ar-lein, lle darparodd Dr Sue Wheatcroft ychydig o wybodaeth am sut i ddeall anhwylderau personoliaeth, yn enwedig anhwylder personoliaeth ffiniol, drwy rannu ei phrofiad ei hun o fyw gyda'r anhwylder a'i chyfnod yn y ddalfa. Mae'r fideo o'r digwyddiad ar gael yma. |
| **Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**<br><br>Ar 4 Mawrth, cynhaliodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y ddegfed Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys. Cafodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd eu gwahodd i fynychu cynhadledd eleni a oedd yn canolbwyntio ar bynciau a oedd yn cynnwys deallusrwydd artiffisial, adnabod wynebau, seiberdroseddu a bygythiadau digidol, fforensig digidol, technoleg ac offer hyfforddi trochol Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, ochr yn ochr â myfyrio ar ddegawd o weithio mewn partneriaeth ar draws ardal Dyfed-Powys. |
| **Fideo recriwtio cefnogol**<br><br>Cynorthwyodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd y SCHTh i hyrwyddo'r cynllun, drwy ganiatáu i'r tîm cyfathrebu ffilmio ymweliad a gynhaliwyd yng Ngorsaf Heddlu Hwlffordd. Mae'r fideo hwn wedi cael ei ddarlledu ar gyfryngau cymdeithasol y SCHTh ers hynny i hyrwyddo recriwtio ar gyfer y cynllun. |

Ionawr – Mawrth 2025-2026

Cyfarfod Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Chwarter 3

Ym mis Ionawr 2026, trafodwyd ystod eang o bynciau yng nghyfarfod Panel yr Ymwelwyr Annibynnol a Dalfeydd, gan gynnwys data Chwartertri, ac awgrymwyd a chytunwyd ar rai camau gweithredu/argymhellion pwysig.

Mae parhad yr agenda newydd, sy'n darparu platfform penodol i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i fynegi yr hyn sydd ar eu meddyliau, eu cwestiynau neu eu pryderon ynghylch materion yr oeddynt wedi dod ar eu traws a lle'r oeddent yn dymuno eglurhad, naill ai gan yr heddlu neu'r SCHTh, yn gweithredu'n dda.

**Ymateb yr heddlu:**

Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, dyma fyfyrdodau'r Arolygydd Andrew Rogers, sy'n gwneud sylwadau ar ran Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y chwarter diwethaf:

*"Rwy'n falch o weld bod y berthynas waith gref yn parhau rhwng ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a staff dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n bleser arbennig gweld parhad o ran sylwadau cadarnhaol a wnaed gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd mewn perthynas â'r croeso a gawsant gan staff y dalfeydd, cymwynasgarwch staff y ddalfa, sylwadau cadarnhaol gan unigolion yn y dalfa ynghylch y ffordd y cawsant eu trin yn y ddalfa, a'r enghraifft o ofal rhagorol a roed i unigolyn yn y ddalfa a oedd yn profi problemau iechyd meddwl.*

*Mae'n anffodus bod ymwelwyr annibynnol wedi profi oedi cyn cael mynediad i ddalfa benodol yn ystod y chwarter hwn o ganlyniad i adnoddau yn y ddalfa a desg flaen yr orsaf. Byddaf yn ymholi'r SCHTh ynghylch lleoliad yr ystafell hon gan na ddylai staff y ddalfa fod yn gadael y ddalfa i ymateb i ymholiadau yn y drws ffrynt.*

*Nodaf y sylwadau gan staff y ddalfa ynghylch yr heriau o ganlyniad i'r ffaith nad oedd darpariaeth iechyd sefydlog yn nalfa Aberhonddu. Serch hynny, rwy'n falch o ddweud bod darpariaeth gofal iechyd sefydlog ar gyfer Aberhonddu bellach ar waith yn dilyn cymeradwyaeth gan brif swyddogion a'r gwaith caled a wnaed gan gydweithwyr Mitie (Darparwr Gofal Iechyd) i gyflawni'r datblygiad cadarnhaol hwn i bawb dan sylw.*

*O ran yr arsylwadau ynghylch atgyweiriadau parhaus mewn dalfeydd, hoffai Gwasanaethau'r Ddalfa sicrhau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod yr adran yn gweithio'n weithredol gyda'r adran Ystadau i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i waith atgyweirio yn y dalfeydd, yn enwedig os yw hyn yn golygu cau cell. Mae proses gytunedig, gan gynnwys uwchgyfeirio, ar waith ac mae'n parhau i gael ei monitro. Fodd bynnag, ni ellir datrys pob atgyweiriad yn gyflym oherwydd amrywiol ffactorau.*

*Mae'n gadarnhaol gweld bod ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi derbyn amrywiol gyfleon o ran hyfforddiant yn ystod y chwarter hwn ar ffurf e-ddysgu, hyfforddiant â phartneriaid eraill ar fregusrwydd, ac iechyd meddwl/profiad bywyd. Bydd yr hyfforddiant hwn yn gwella arsylwadau pwysig aelodau'r cynllun ymhellach.*

*Hoffwn ddiolch i'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am eu hadborth parhaus, eu cefnogaeth i'n hunedau dalfa, a'u presenoldeb mewn cyfarfodydd Paneli Craffu ar Ddalfeydd, sy'n ein galluogi i barhau i fod yn atebol ac yn dryloyw o ran y ffordd yr ydym yn ymdrin ag unigolion a gedwir yn y ddalfa."*